Y Bartneriaeth Awyr Agored

Adroddiad Effaith Gymdeithasol

2025 - 2026

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hadroddiad Gwerth Cymdeithasol 2026, sy'n adlewyrchu blwyddyn bwysig arall o ddysgu, datblygu ac ymrwymiad i ddeall y gwahaniaeth y mae Partneriaeth Awyr Agored yn ei wneud ar draws y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein dull o ymdrin â gwerth cymdeithasol yn parhau i esblygu, gan adeiladu ar waith gwerthuso blaenorol a chryfhau'r ffyrdd rydym yn gwrando ar gyfranogwyr, gwirfoddolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ehangach. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl sy'n elwa o'n gwaith yn parhau i fod wrth wraidd y ffordd rydym yn cynllunio, cyflwyno a gwella ein gwasanaethau.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau rhwystrau i weithgarwch awyr agored ac i greu cyfleoedd i bobl brofi manteision corfforol, meddyliol a chymdeithasol bod yn egnïol yn yr awyr agored. Mae gwerth cymdeithasol yn ein helpu i ddeall yn well beth sydd bwysicaf i'r unigolion a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw, beth rydym yn ei wneud yn dda, a lle gallwn wneud gwelliannau ystyrlon. Mae'r mewnwelediad hwn yn hanfodol wrth inni barhau i lunio ein cyfeiriad yn y dyfodol a sicrhau bod ein gwaith yn ymatebol, wedi'i lywio gan y bobl a'r cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw, yn gynhwysol ac yn cael effaith.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i weithio gyda Mantell Gwynedd i wreiddio gwerth cymdeithasol ymhellach ar draws y sefydliad ac i gryfhau ein dealltwriaeth o'r canlyniadau sy'n cael eu creu drwy ein rhaglenni. Rydym hefyd yn dechrau datblygu adroddiadau effaith gymdeithasol ar gyfer pob un o'n rhanbarthau gweithredu ledled y DU. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno darlun cliriach o angen, gweithgarwch ac effaith ranbarthol, gan gydnabod y cyd-destunau gwahanol y mae ein timau a'n partneriaid yn gweithredu ynddynt.

Rydym hefyd wedi buddsoddi adnoddau sylweddol eleni mewn system fonitro a gwerthuso newydd. Wrth i'r system hon gael ei gwreiddio, rydym yn disgwyl iddi ddarparu data mwy cyson, mewnwelediad cyfoethocach a thystiolaeth gryfach i gefnogi datblygiad, dysgu a gwella yn y dyfodol. Mae'r buddsoddiad hwn yn gam pwysig ymlaen yn y ffordd rydym yn mesur, deall a chyfleu ein heffaith, a bydd yn helpu i sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn parhau i fod wrth galon penderfyniadau a thwf hirdymor Partneriaeth Awyr Agored.

Tracey Evans
Prif Weithredwraig

Crynodeb

Mae Partneriaeth Awyr Agored yn elusen arobryn sy'n ymroddedig i wella bywydau pobl trwy weithgareddau awyr agored. Bob blwyddyn, rydym yn ysbrydoli pobl mewn cymunedau lleol i gymryd rhan yn ein rhaglenni trwy gyfranogiad, addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth, gan wella lles iechyd, cymdeithasol ac economaidd tra'n chwalu rhwystrau fel bod yr awyr agored yn hygyrch i bawb.

Mae Y Partneriaeth Awyr Agored yn cefnogi pobl ar draws Cymru, Ayrshire yn yr Alban, siroedd de-ddwyreiniol a rhanbarthau'r Sperrins yng Ngogledd Iwerddon, Plymouth, Torbay, Cumbria, North Yorkshire a Coventry yn Lloegr i wneud gweithgareddau awyr agored yn rhan o'u bywydau. Mae ein dull strategol yn canolbwyntio ar greu newid cenhedlaethol, lle mae cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn dod yn rhan arferol a gwerthfawr o fywyd bob dydd o fewn cymunedau lleol.

Trwy'r gwaith hwn, mae'r elusen a'i phartneriaid wedi cyflawni nifer o ganlyniadau allweddol, gan gynhyrchu Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad o £8.42 am bob £1 a wariwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod 2025–2026, parhaom i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu, gan gryfhau ein rhwydweithiau partner a chefnogi'r grwpiau a'r unigolion sydd wrth wraidd ein gwaith.

Allbynnau

- Creodd ein prif raglenni gyfleoedd i **14,789** o bobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored – yn aml am y tro cyntaf – gan gefnogi gwelliannau i iechyd a lles.

- Cefnogodd ein swyddogion hefyd **147** o glybiau a grwpiau cymunedol, gan gyrraedd mwy na **7,000** o aelodau gweithredol ac 838 o arweinwyr gwirfoddol.

- Darparodd ein rhaglen cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored i **3,330** o bobl.

- Rhoddodd **838** o arweinwyr gwirfoddol eu hamser i alluogi **7,040** o bobl i gymryd rhan mewn clybiau a grwpiau gweithgareddau awyr agored cymunedol, gan gyfrannu gwerth amcangyfrifedig o **£2.5 miliwn** i'w cymunedau lleol yn seiliedig ar gyfraddau hyfforddwyr masnachol.

- Cymerodd **487** o bobl ran yn ein rhaglen 'Llwybrau at Waith', gyda **247** o gyfranogwyr yn ennill cymwysterau gan Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol, **160** yn symud ymlaen i ddysgu a hyfforddiant pellach, **39** yn dechrau gwirfoddoli a **66** yn dechrau gwaith amser llawn.

- Cymerodd **5,448** o bobl ran mewn prosiectau Therapi Antur a rhagnodi cymdeithasol fel rhan o'n rhaglen Iechyd a Lles.

Ar gyfer yr Adroddiad Effaith Gymdeithasol hwn, ac i nodi deilliannau hirdymor, rydym wedi defnyddio data gan gyfranogwyr a gwblhaodd raglenni o chwe sesiwn neu fwy. Gwneir hyn i sicrhau nad ydym yn peidio gôr hawlo y gwerth cymdeithasol rydym yn ei greu, yn unol â methodoleg SROI ac egwyddorion gwerth cymdeithasol.

Y BARTNERIAETH AWYR AGORED

ADRODDIAD EFFAITH GYMDEITHASOL 2025 - 2026

Ennillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau £1 → £8.42

Cydlyniant Cymunedol

6,375 O unigolion wedi crmryd rhan mewn blasu yn y gymuned

Roedd gan bob unigolyn a fynychodd y sesiynau blasu **fwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o sut i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored**

Llwybrau at Waith

9 o unigolion wedi cymryd rhan yn y rhaglen Llwybrau at Waith

93% o unigolion wedi nodi bod eu **lles meddyliol** wedi gwella.

100% o unigolion yn teimlo'n **fwy annibynnol.**

Noddodd unigolion bod eu **hiechyd corfforol** hefyd wedi gwella a'u bod yn **teimlo'n llai unig ac ar wahân.**

Iechyd a Lles

141 o unigolion wedi cymryd rhan mewn prosiectau iechyd a lles.

84 o unigolion wedi nodi bod eu **lles meddyliol** wedi gwella.

67% o unigolion wedi nodi bod eu **hiechyd corfforol** wedi gwella.

75% o unigolion yn **teimlo'n llai unig**

Gwirfoddoli

26 o lysgenhadon gwirfoddol wedi'u recriwtio trwy brosiectau Y BAA.

123 Gwirfoddolwyr a gefnogir trwy brosiect Caru Eryri.

83% o wirfoddolwyr yn teimlo'n fwy **cadarnhaol am y dyfodol.**

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

486 o ryngweithiadau wedi bod drwy raglenni Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

93% o unigolion wedi nodi bod eu **lles meddyliol** wedi gwella

70% o unigolion wedi dweud bod eu **hiechyd corfforol** wedi gwella.

89% o unigolion eu bod yn teimlo'n **fwy galluog i ymgymryd â heriau newydd.**

Datblygu Clwb

147 o glybiau wedi derbyn cefnogaeth gan y Swyddogion Datblygu Lleol.

59% o glybiau wedi **cynyddu eu capasiti** oherwydd y gefnogaeth maent wedi'i derbyn.

76% o glybiau wedu nodi eu bod yn **fwy cynhwysol.**

42% o glybiau wedi nodi eu bod yn **fwy dichonol yn ariannol.**

Gwerth Cymdeithasol

Bydd popeth a wnawn yn cael effaith ar bobl, ond sut ydym yn gwybod ein bod yn gwneud newid cadarnhaol ym mywydau pobl? Mae Gwerth Cymdeithasol yn fframwaith o egwyddorion sy'n ein galluogi i fesur ein heffaith ac yn canolbwyntio ar les pobl a deall beth sydd bwysicaf iddynt. Trwy wrando ar ein rhanddeiliaid gallwn gyfrif am y gwerth rydym yn ei greu ond hefyd sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu dyrannu i ble gallwn gael yr effaith fwyaf.

Mae cymryd dull mwy cyfannol o fesur effaith yn golygu bod modd cyfrif am newidiadau cadarnhaol, negyddol, bwriadol ac anfwriadol – ac yn y pen draw pan gaiff y rhain eu cymharu â chostau cymharol eu creu, mae modd adnabod yr elw cymdeithasol ar fuddsoddiad.

Y 8 Egwyddor o Gwerth Cymdeithasol

1. Cynnwys y rhanddeiliaid

Rhoi gwybod am yr hyn gaiff ei fesur a sut caiff ei fesur a'i brisio o ran gwerth cymdeithasol drwy gynnwys rhanddeiliaid.

2. Deall yr hyn sy'n newid

Mynegi sut caiff newid ei greu a gwerthuso hyn drwy dystiolaeth a gasglwyd, gan gydnabod newidiadau cadarnhaol a negyddol yn ogystal â'r rhai sy'n fwriadol ac anfwriadol.

3. Gwerthfawrogi'r pethau sy'n bwysig

Mae angen i'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau rhwng gwahanol opsiynau gydnabod gwerthoedd rhanddeiliaid. Mae gwerth yn cyfeirio at bwysigrwydd cymharol gwahanol ganlyniadau. Caiff ei lywio gan ddewisiadau rhanddeiliaid.

4. Cynnwys yr hyn sy'n berthnasol yn unig

Penderfynu pa wybodaeth a thystiolaeth y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cyfrifon i roi darlun gwir a theg, fel y gall rhanddeiliaid ddod i gasgliadau rhesymol am effaith.

5. Peidio â gor-hawlio

Hawlio'r gwerth y mae'r gweithgareddau yn gyfrifol am eu creu yn unig. Mae bod yn wrthffeithiol yn caniatáu inni ystyried beth allai ddigwydd heb yr ymyrraeth, ac mae llawer o ymchwil wedi'i wneud ar hyn o'r blaen ac felly rydym yn sicrhau bod cyfraddau priodol yn cael eu cynnwys er mwyn osgoi gor-hawlio. Mae priodoli yn caniatáu inni ystyried cyfraniad eraill, ac mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau amrywiol ac felly mae rhywfaint o'r gwerth wedi'i briodoli iddynt.

6. Bod yn dryloyw

Dangos y sail y gellir ystyried y dadansoddiad yn gywir ac yn onest a dangos y bydd yn cael ei adrodd i randdeiliaid a'i drafod â nhw.

7. Gwirio'r canlyniad

Sicrhau sicrwydd annibynnol priodol. Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn comisiynu Gwerth Cymdeithasol Cymru i wirio'r canlyniad a darparu sicrwydd ac argymhellion allanol ar gyfer gwella effaith.

8. Bod yn ymatebol

Mynd ar drywydd y Gwerth Cymdeithasol gorau posibl yn seiliedig ar wneud penderfyniadau sy'n amserol ac wedi'i gefnogi gan gyfrifo ac adrodd priodol.

Lloegr

Rhaglen Dringo Therapiwtig REACH i Ferched

Pan ddechreuodd rhaglen Ddringo Therapiwtig REACH i Ferched, nid dysgu dringo yn unig oedd y nod erioed. Roedd yn ymwneud â chreu gofod diogel a chefnogol lle gallai menywod ailgysylltu â'u cyrff, magu hyder a darganfod gweithgarwch corfforol mewn ffordd a oedd yn parchu eu profiadau bywyd.
Wedi'i chyflwyno mewn partneriaeth â Climb Well CIC, daeth y rhaglen 12 wythnos â hyfforddwyr dringo cymwys ynghyd sydd hefyd yn therapyddion trwyddedig. Roedd pob sesiwn yn cyfuno dringo dan do â chymorth therapiwtig mewn grŵp, gan ganolbwyntio ar lesiant, hyder, cysylltiad a hunan-barch.

Roedd y rhaglen yn ymateb i angen lleol clir. Roedd gan Whitehaven wal ddringo ragorol ond heb ei defnyddio'n ddigonol, gyda darpariaeth gyfyngedig ar gyfer menywod sy'n ddechreuwyr mewn dringo. Roedd y grŵp yn cefnogi menywod a oedd yn byw gyda thrawma gynaecolegol a heriau iechyd hormonaidd, gan gynnwys endometriosis, syndrom ofarïau polysystig (PCOS), menopos llawfeddygol, adferiad ar ôl hysterectomi a phrofiadau o ganser yr ofari. Roedd llawer yn cyrraedd gyda diffyg hyder, pryderon iechyd, pwysau costau byw, cyfrifoldebau gofalu ac ofn peidio â nabod neb arall.

Dros yr wythnosau, dechreuodd rhywbeth newid. Cofrestrodd dau ddeg dau o fenywod ar gyfer y rhaglen, a dangosodd y rhai a gwblhaodd fonitro gwaelodlin a monitro dilynol gynnydd clir: cododd llesiant meddyliol 13%, iechyd corfforol 20%, cysylltiad cymdeithasol 29%, hyder 15% a hunan-barch 41%. Ond dim ond rhan o'r stori mae'r ffigurau'n ei hadrodd.

Ar y dechrau, dywedodd chwech o bob wyth menyw fod hyder yn rhwystr, a dywedodd pedair nad oedd ganddynt neb i fynd gyda nhw. Erbyn diwedd y rhaglen, dim ond un oedd yn dal i nodi hyder fel rhwystr, ac nid oedd neb yn dweud bod peidio â nabod rhywun yn eu hatal rhag cymryd rhan. Daeth dringo yn brofiad a rennir lle gallai menywod siarad yn agored, annog ei gilydd a chydnabod eu cryfder eu hunain.

Mae eu geiriau'n dod â'r newid hwn yn fyw. Disgrifiodd un cyfranogwr REACH i Ferched fel "cyfle a newidiodd fy mywyd yn llwyr" a dywedodd ei bod wedi teimlo'n ddiogel yn seicolegol o'r sesiwn gyntaf ymlaen. Dywedodd un arall: "Rwy'n teimlo'n fwy hyderus ac wedi fy ngrymuso, ac yn cyflawni mwy a mwy bob wythnos." Soniodd eraill am gyfeillgarwch, hunan-gred a chyflawni mwy nag yr oeddent wedi ei ddisgwyl.

Mae'r stori wedi parhau y tu hwnt i'r rhaglen a ariannwyd. Mae'r menywod wedi creu eu rhwydwaith cymorth cymheiriaid eu hunain ac maent bellach yn cyfarfod drwy grŵp dringo newydd i fenywod dechreuwyr yn Whitehaven. Dan arweiniad gwirfoddolwyr cymwys, bydd y sesiynau pythefnosol yn helpu i gynnal y momentwm ac yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r hyn a ddechreuodd fel rhaglen ddringo therapiwtig wedi tyfu'n gymuned o fenywod yn cefnogi ei gilydd: gan symud o ansicrwydd i hyder, o unigedd i gysylltiad, ac o ystyried dringo fel rhywbeth anghyfarwydd i'w weld fel ffynhonnell cryfder, llesiant a pherthyn.

Gogledd Iwerddon

Prosiect Sgiliau Bryniau i Ferched: Hyder, Cysylltiad ac Arweinyddiaeth yn y Bryniau

I lawer o fenywod, gall camu i'r bryniau deimlo fel camu i diriogaeth anghyfarwydd. Nod Prosiect Sgiliau Bryniau i Ferched oedd newid hynny. Wedi'i ddarparu ar draws Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol y Mournes a'r Sperrins, creodd y rhaglen ofod diogel, croesawgar ac ar gyfer menywod yn unig, lle gallai cyfranogwyr o gymunedau gwledig ddysgu, datblygu a gweld eu hunain fel cerddwyr bryniau hyderus ac arweinwyr awyr agored y dyfodol.

Dan arweiniad hyfforddwyr benywaidd ac wedi'i seilio ar lwybr hyfforddi Mountaineering Ireland, cynigiodd y prosiect 15 diwrnod o hyfforddiant blaengar a feithrinodd sgiliau gam wrth gam. Dysgodd cyfranogwyr lywio ymarferol, ymwybyddiaeth o ddiogelwch a gwneud penderfyniadau yn yr ucheldiroedd, gan hefyd ddatblygu ymddiriedaeth ynddynt eu hunain ac yn ei gilydd. I rai, datblygodd y daith yn gyflym o'r camau cyntaf mewn sgiliau bryniau i gwblhau Sgiliau Mynydd 1 a 2.

Cyrhaeddodd y rhaglen garreg filltir bwysig ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, pan ddaeth y cyfranogwyr ynghyd ar gyfer alldaith ar 8 Mawrth. Roedd yn llawer mwy na thaith gerdded; roedd yn ddathliad o hyder, gweledded a chyflawniad. Gyda darparwr sawna awyr agored lleol yn ychwanegu elfen lesiant at y diwrnod, cydnabuwyd pa mor bell yr oedd y menywod wedi dod, nid yn unig yn eu sgiliau technegol, ond hefyd yn eu cred fod y tirweddau hyn yn perthyn iddynt hwythau hefyd.

Roedd y prosiect yn cefnogi blaenoriaethau Sport NI drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gwella llesiant meddyliol a chorfforol, lleihau unigedd gwledig, a chreu llwybrau i fenywod symud ymlaen at gymwysterau achrededig Mountain Skills ac Arweinydd Bryniau a Rhostiroedd (Hill & Moorland Leader). Cafodd chwech o gyfranogwyr ymroddedig a gwblhaodd MS1 ac MS2 gymorth ar ffurf offer cerdded mynydd brandiedig, gan helpu i ddileu rhwystrau ymarferol a chydnabod yr ymrwymiad oedd ei angen i barhau â'u taith.

Yn ei hanfod, roedd y prosiect yn ymwneud â llawer mwy na hyfforddiant. Roedd yn ymwneud â chysylltiad – cysylltiad â lle, â chyfoedion ac â photensial personol. Roedd adborth y cyfranogwyr yn adlewyrchu newid gwirioneddol, gyda menywod yn nodi mwy o hyder wrth lywio, gwell annibyniaeth, a mwy o ymdeimlad o ddiogelwch yn y bryniau. Roeddent yn gwerthfawrogi amynedd, anogaeth ac arbenigedd yr hyfforddwyr, yn ogystal â'r dull grwpiau bach a roddodd le i alluoedd gwahanol a mannau cychwyn amrywiol.

Amlygwyd yr amgylchedd i fenywod yn unig dro ar ôl tro fel un o gryfderau mwyaf y prosiect. Creodd ymddiriedaeth, lleihau pwysau, a galluogi cyfranogwyr i ofyn cwestiynau, ymarfer sgiliau a chymryd rôl arweiniol mewn lleoliad lle'r oeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth. I gyfranogwyr gwledig, roedd darpariaeth leol yr un mor bwysig, gan gael gwared ar rwystrau teithio a chryfhau eu perthynas â'r Mournes a'r Sperrins.

Mae Prosiect Sgiliau Bryniau i Ferched yn dangos beth sy'n bosibl pan fo dysgu awyr agored yn lleol, yn gynhwysol ac wedi'i gynllunio o amgylch anghenion menywod. Helpodd gyfranogwyr i symud o ansicrwydd i annibyniaeth, o unigedd i gefnogaeth cymheiriaid, ac o gyfranogi tuag at arweinyddiaeth. Gyda buddsoddiad parhaus, gellid ehangu'r model hwn ar draws Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gwledig, gan greu mwy o gyfleoedd sgiliau bryniau i fenywod yn unig, llwybrau cryfach i gymwysterau arweinyddiaeth achrededig, mwy o ddarpariaeth hyblyg yn ystod yr wythnos, cydnabyddiaeth ar gyfer sesiynau undydd, a hyrwyddo ehangach y tu hwnt i'r cyfryngau cymdeithasol fel y gall mwy o fenywod ddod o hyd i'w lle yn y bryniau.

Mae'r effaith eisoes yn ymestyn y tu hwnt i'r rhaglen. Mynegodd llawer o gyfranogwyr ddiddordeb mewn parhau drwy gymwysterau Lowland Leader, Hill & Moorland Leader, a llwybrau Mountain Skills pellach, gyda rhai yn anelu at arwain teithiau cerdded yn eu cymunedau eu hunain. Bydd porth olrhain cyfranogwyr yn helpu TOP i ddeall y teithiau hirdymor hyn yn well, gan gynnwys cyfranogiad yn y dyfodol, gwirfoddoli a datblygu sgiliau arweinyddiaeth.

Gogledd Iwerddon

Prosiect Llesiant Bolster

Cafodd Prosiect Llesiant Bolster ei ariannu gan yr Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus (PHA) drwy Gronfa Datblygu Cymunedau Iach. Mae Cymuned Bolster yn gweithio gydag oedolion ag awtistiaeth ac anableddau dysgu, ac mae wedi nodi bod cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn hynod fuddiol i'w haelodau. Felly, lluniwyd rhaglen wyth wythnos i'w galluogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau awyr agored. Drwy gydol y prosiect, cymerodd 24 o gyfeillion ("buddies") Bolster ran mewn gweithgareddau amrywiol yn yr awyr agored.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Sesiynau llesiant natur a sgiliau goroesi yn yr awyr agored (bushcraft) yng Nghastell a Gerddi Hillsborough
- Sesiynau dringo yn Boulder World, Belfast
- Sesiynau chwaraeon dŵr yn Llynnoedd Moira
- Sesiynau beicio hygyrch yn Llynnoedd Craigavon
- Sesiynau llywio ym Mharciau Coedwig Tollymore a Gosford

Adborth a Deilliannau

Cwblhaodd pob cyfranogwr ffurflen adborth ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen. Nododd pob un ohonynt fod cymryd rhan yn y gweithgareddau wedi arwain at welliant yn eu llesiant.

Adborth gan gyfranogwr

"Cefais amser gwych! Roeddwn i wrth fy modd yn gwneud y chwaraeon dŵr. Mae'n fy rhoi mewn hwyliau da!"

Adborth gan aelod o staff

"Mae'r cyfeillion bob amser yn edrych ymlaen at bob gweithgaredd a drefnir gan y Bartneriaeth Awyr Agored. Mae pob gweithgaredd wedi'i gynllunio'n ofalus i fod yn gwbl hygyrch i ddiwallu eu hanghenion, gan sicrhau bod pob cyfaill yn gallu cymryd rhan yn gyfforddus ac yn ddiogel. Ar yr un pryd, mae'r profiadau hyn wedi rhoi cyfle iddynt ddarganfod lleoedd a diddordebau newydd – llawer ohonynt na fyddent erioed wedi dod ar eu traws heb gefnogaeth y Bartneriaeth Awyr Agored. I lawer o'r cyfeillion, roedd y gweithgareddau hyn yn bethau na fyddent erioed wedi dychmygu y gallent eu gwneud. Mae'r cyfleoedd wedi cael effaith sylweddol ar eu llesiant cyffredinol.

Mae llawer wedi sylwi ar welliannau yn eu hyder, eu hiechyd corfforol, a'u parodrwydd i roi cynnig ar weithgareddau newydd. Er bod rhoi cynnig ar rywbeth anghyfarwydd yn aml yn heriol, roedd y gefnogaeth a gawsant yn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan gyda brwdfrydedd a phenderfyniad. Gyda phob profiad newydd, maent yn parhau i feithrin gwydnwch, darganfod cryfderau newydd, a manteisio ar gyfleoedd newydd."

Casgliad

Mae'r grŵp yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau awyr agored.Byddwn yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect hwn i gynllunio rhaglenni yn y dyfodol ac i geisio cyllid ar gyfer rhagor o gyfleoedd.

Gogledd Iwerddon

Alldaith Grŵp Antur Llyn Erne

Mae'r Grŵp Antur wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ar gyfer sesiynau canŵio a dringo ac roeddent yn awyddus i gael antur dros benwythnos. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys pobl ag ystod o alluoedd symudedd, ac mae rhai ohonynt yn defnyddio cadeiriau olwyn.

Ym mis Mai buom yn gweithio mewn partneriaeth ag Accessible Adventures Ireland i gefnogi 10 cyfranogwr i gymryd rhan mewn Alldaith Ganŵio ar Lyn Erne, Sir Fermanagh. Cafodd y daith ei chymorthdalu gan Y Bartneriaeth Awyr Agored De-ddwyrain Gogledd Iwerddon.

Roedd Paul o Accessible Adventures Ireland yn gallu diwallu anghenion y grŵp drwy ddarparu amrywiaeth o ganŵod a seddi wedi'u haddasu, gan sicrhau bod pawb yn gyfforddus ac yn cael y gefnogaeth angenrheidiol.

Arhosodd y grŵp yng Nghanolfan The Share, ac oddi yno roedd ganddynt fynediad hawdd at y llyn. Ar ddydd Sadwrn, cawsant daith gyffrous mewn cwch RIB i'r man cychwyn cyn mwynhau diwrnod ar y dŵr, gan ymweld â nifer o ynysoedd y llyn. Dilynwyd hyn gan sesiwn anadlu i'w helpu i ymlacio a dadflino. Ar ddydd Sul, ymwelodd y grŵp â chymuned Hare Krishna ar Lyn Erne, lle cawsant wahoddiad i ymuno â dathliad a oedd yn brofiad hynod ddiddorol i bawb. Roedd cadeiriau olwyn pob tir a ddarparwyd gan Accessible Adventures Ireland yn golygu bod aelodau'r grŵp yn gallu archwilio'r ynysoedd yr ymwelwyd â nhw yn ystod y daith, gan wneud y profiad yn fwy hygyrch i bawb.

Adborth / Deilliannau

Roedd yr adborth o'r daith yn hynod gadarnhaol, gyda phawb yn awyddus i gymryd rhan mewn teithiau tebyg yn y dyfodol.

"Nid yw'n rhywbeth y byddwn wedi'i wneud nac wedi teimlo'n gallu ei wneud heb gefnogaeth y trefnwyr. Roedd bod yn yr awyr iach, ar ddŵr agored ac yn un â natur yn brofiad arbennig."

"Fe wnes i wir fwynhau cael cwrdd â phobl newydd a rhoi cynnig ar bethau newydd fel caiacio gan mai hwn oedd y tro cyntaf i mi wneud unrhyw beth tebyg!"

Rhannodd Nathan, aelod o'r grŵp, ei farn mewn fideo a gynhyrchwyd am y digwyddiad:

"Mae teithio gyda phobl eraill sydd mewn sefyllfa debyg i chi eich hun yn brofiad gostyngedig iawn pan fyddwch yn clywed straeon pobl a sut y cawsant eu hanafiadau a phethau tebyg. Mae'n brofiad gwych o feithrin cysylltiadau a chreu cyfeillgarwch newydd. Mae'r elfen gymdeithasol yn anhygoel ac ni all geiriau ddisgrifio'r hyn rydych yn ei ddysgu o ran sgiliau – rwyf wedi dechrau troi fy nghaiac drosodd ac yn ôl eto, rhywbeth na feddyliais erioed y byddwn yn gallu ei wneud. Mae bod yn rhan o ddigwyddiadau fel hyn yn wych i fy iechyd meddwl. Y peth pwysicaf i mi yw bod allan ar y dŵr yn sgwrsio â phobl yn hytrach na gorfod anfon negeseuon testun. Y cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw yw rhywbeth nad yw pawb yn ei gael."

Mae'r teithiau hyn wedi atgyfnerthu ymhellach pa mor werthfawr yw digwyddiadau o'r fath. Maent yn darparu gofod i gyfranogwyr ddod ynghyd a chymryd rhan mewn profiadau sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau, tra hefyd yn darparu manteision sylweddol i'w hiechyd a'u llesiant.Mae'n bwysig cael sesiynau a digwyddiadau rheolaidd er mwyn cynnal yr elfen ddysgu a chymdeithasol o'r grŵp, yn ogystal â rhoi cyfle i gyfranogwyr newydd gymryd rhan a dod yn rhan o'r gymuned hon.

Yr Alban

Llesiant ym Myd Natur

Daeth peilot chwech wythnos Llesiant ym Myd Natur â thrigolion De Swydd Ayr ynghyd mewn mannau gwyrdd lleol i archwilio byd natur, meithrin hyder yn yr awyr agored a chefnogi llesiant meddyliol a chorfforol. Cyflwynwyd y rhaglen gan The Conservation Volunteers (TCV), gyda chyllid a chefnogaeth gan Y Bartneriaeth Awyr Agored, Adventure Carrick a Volunteer Action South Ayrshire, drwy Gronfa Llesiant ac Iechyd Meddwl Cymunedau Llywodraeth yr Alban. Roedd y rhaglen yn cynnig ffordd hamddenol a hygyrch i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau iechyd gwyrdd.

Yr Her: Nod y peilot oedd helpu trigolion sydd wedi'u cofrestru gyda meddygfeydd yn Ne Swydd Ayr i gael mynediad at weithgareddau sy'n seiliedig ar natur drwy hunangyfeirio, cyfeirio meddygol neu lwybrau rhagnodi cymdeithasol. Roedd yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, gwella llesiant, ehangu mynediad at weithgareddau awyr agored a chryfhau partneriaethau rhwng y sectorau iechyd, cymunedol a mannau gwyrdd.

Beth Ddigwyddodd: Rhwng 15 Ionawr a 19 Chwefror 2026, cynhaliwyd sesiynau wythnosol o ddwy awr a hanner yng Nghoedwigoedd Fullarton yn Troon, Parc Rozelle yn Ayr a Pharc Belleisle yn Ayr. Roedd pob sesiwn yn cynnwys taith gerdded dywysedig hamddenol, dysgu anffurfiol ac amser i fwynhau diodydd poeth a sgwrsio.Roedd y themâu'n cynnwys: Ecoleg coetiroedd, Archwilio'r synhwyrau ym myd natur, Adar lleol, Bywyd gwyllt cudd o dan ein traed, Trychfilod bach a phryfed a Lliwiau natur

Pwy Gymerodd Ran: Drwy gydol y gyfres, bu 24 o bobl yn rhan o'r prosiect, gan gynnwys 14 o gyfranogwyr unigol ac aelodau staff o TCV, Ymarferwyr Cyswllt Cymunedol a Y Bartneriaeth Awyr Agored. Roedd y niferoedd yn isel i ddechrau ond yn cynyddu wrth i gyfranogwyr ddychwelyd i sesiynau pellach, gyda chyfartaledd o bedwar cyfranogwr ym mhob sesiwn. Daeth pob un o'r cyfranogwyr unigol drwy hunangyfeirio, wedi'u cefnogi gan hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, posteri, taflenni a ddosbarthwyd i feddygfeydd lleol, a rhwydweithiau partneriaid lleol.

Beth a Ddysgwyd: Dangosodd y peilot fod gweithgareddau llesiant sy'n seiliedig ar natur yn cael eu gwerthfawrogi pan fyddant yn hamddenol, lleol, addysgiadol a chymdeithasol. Roedd defnyddio'r un safleoedd dro ar ôl tro yn gweithio'n dda gan ei fod yn meithrin ymdeimlad o gyfarwyddyd, tra bod y bwlch wythnosol rhwng sesiynau yn helpu i greu parhad.Fodd bynnag, roedd rhai rhwystrau'n parhau, gan gynnwys: Iechyd gwael, Tywydd anffafriol, Problemau trafnidiaeth, Canslo ar y funud olaf, Anawsterau gyda'r system archebu drwy e-bost. Byddai cyfnod hyrwyddo hirach a mwy o ymrwymiad gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gyfeirio pobl at y rhaglen yn helpu mentrau tebyg yn y dyfodol i gyrraedd mwy o bobl.

Camau Nesaf: Dylai'r ddarpariaeth yn y dyfodol:Brofi'r model ar draws ardal ehangach Ayrshire, Gwella systemau archebu, Cryfhau llwybrau cyfeirio iechyd Gwyrdd, Datblygu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyda meddygfeydd ac Ymarferwyr Cyswllt Cymunedol. Gyda hyrwyddo cryfach a llwybrau cyfeirio mwy effeithiol, mae gan y peilot y potensial i ddatblygu'n ddarpariaeth llesiant gynaliadwy sy'n cysylltu pobl â natur a chymorth cymunedol.

Yr effaith: Adroddodd y cyfranogwyr eu bod wedi dysgu mwy am natur bob dydd, gan ddarganfod mannau gwyrdd lleol ar garreg eu drws a theimlo'n frwdfrydig i barhau i sylwi ar fywyd gwyllt, ei gefnogi a'i fwynhau. Tynnodd adborth sylw at werth hwyluso gwybodus, maint grŵp bach, cynefinoedd amrywiol a'r cyfle i gymdeithasu ar ôl pob taith gerdded. Dywedodd un cyfranogwr eu bod yn "teimlo'n llawn egni" ar ôl taith gerdded y Ffrindiau Pluog, tra bod un arall wedi myfyrio bod y sesiynau wedi eu helpu i ddysgu "llawer o bethau newydd" mewn lleoliad pleserus a chroesawgar.

Yr Alban

Rhaglen Hwylio OnBoard Academi Largs

Roedd y rhaglen yn ymdrech ar y cyd rhwng Y Partneriaeth Awyr Agored Ayrshire, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (Nuclear Decommissioning Authority), Active Schools a'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol (Royal Yachting Association – RYA). Chwaraeodd pob partner rôl benodol, o oruchwyliaeth strategol i adnabod cyfranogwyr a darparu hyfforddiant hwylio o safon uchel.

Dysgu Awyr Agored Cynhwysol: Cymerodd deuddeg o ddisgyblion o gefndiroedd amrywiol ran yn y rhaglen, gan gynnwys Scots Newydd, gofalwyr ifanc, pobl ifanc â phrofiad o'r system ofal, disgyblion a oedd yn gwrthod mynychu'r ysgol, a'r rhai oedd angen cymorth ychwanegol. Cynlluniwyd y rhaglen i fod yn hygyrch ac yn gefnogol, gan sicrhau tegwch, cynhwysiant a grymuso i bawb a gymerodd ran.

Gweithgareddau a Datblygu Sgiliau: Roedd y sesiynau yng Nghlwb Hwylio Largs yn cynnwys: Hwylio ymarferol, Rigio cychod, Deall gwyntoedd a llanw, Sgiliau llywio, Gwaith tîm, Adfer ar ôl troi drosodd (capsize recovery). Enillodd y disgyblion gymwysterau hwylio cydnabyddedig drwy raglen RYA OnBoard.

Effaith Gadarnhaol ar Lesiant ac Ymgysylltiad

- Mwynhaodd **100%** o'r cyfranogwyr y cwrs a theimlo'n fwy hyderus**.**
- Roedd **75%** yn teimlo'n hyderus iawn wrth hwylio cwch hwylio bach (dinghy), tra roedd y gweddill yn teimlo'n weddol hyderus.
- Roedd **83%** eisiau parhau i hwylio.
- Ymunodd **67%** â'r clwb lleol ac roeddent yn hwylio'n wythnosol.
- Nododd athrawon a phartneriaid welliannau mewn hunan-barch, gwytnwch a chysylltiadau cymdeithasol.

Myfyrdodau gan y Cyfranogwyr: Mynegodd y bobl ifanc syndod a brwdfrydedd wrth roi cynnig ar hwylio am y tro cyntaf. Tynnwyd sylw at gynnydd mewn hyder, mwynhad a'r awydd i barhau gyda'r gweithgaredd. Rhoddodd y rhaglen gyfle unigryw iddynt ddatblygu'n bersonol ac ennill sgiliau newydd.

Deilliannau a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol: Fe wnaeth y rhaglen feithrin ymdeimlad o gyflawniad, cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a chefnogi ymgysylltiad parhaus â gweithgareddau awyr agored. Mae'r partneriaid yn bwriadu ehangu'r fenter a gwreiddio hwylio o fewn cynnig ehangach o ddysgu awyr agored, gyda'r nod o gyrraedd mwy o bobl ifanc ledled Ayrshire.

Casgliad: Mae rhaglen hwylio OnBoard Academi Largs yn dangos gwerth dysgu awyr agored cynhwysol sy'n cael ei yrru gan bartneriaethau. Llwyddodd i hyrwyddo llesiant, datblygu sgiliau ac annog ymgysylltiad hirdymor ymhlith pobl ifanc a allai fel arall wynebu rhwystrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

Cymru

Adeiladu Clwb Caiacio Cynhwysol a Chynaliadwy drwy Addysg Hyfforddwyr

Mae Clwb Chwaraeon Padlo Seren Dŵr yn glwb chwaraeon padlo a arweinir gan y gymuned, sy'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn slalom, freestyle a phadlo hamddenol i bobl ifanc, oedolion a theuluoedd ledled De Cymru. Fel llawer o glybiau llawr gwlad, wynebodd heriau yn dilyn COVID wrth geisio cadw digon o hyfforddwyr gwirfoddol cymwys i sicrhau bod sesiynau'n ddiogel, yn fforddiadwy ac yn gynhwysol.

Daeth datblygu hyfforddwyr yn her allweddol. Roedd gwirfoddolwyr yn wynebu costau cynyddol ar gyfer cymwysterau, ail-ddilysu a theithio, yn ogystal â phwysau ehangach costau byw. Heb gymorth, roedd y clwb mewn perygl o golli hyfforddwyr a lleihau'r cyfleoedd oedd ar gael i bobl ifanc, teuluoedd a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Drwy gyllid Addysg Hyfforddwyr Y Bartneriaeth Awyr Agored, mae Seren Dŵr wedi cryfhau ei lwybr datblygu hyfforddwyr. Mae'r gefnogaeth wedi helpu gwirfoddolwyr i gwblhau ac adnewyddu cymwysterau craidd Paddle UK, gan gynnwys hyfforddiant mewn Diogelwch ac Achub Chwaraeon Padlo, Cymorth Cyntaf a Hyfforddwr Chwaraeon Padlo. Mae hyn wedi lleihau rhwystrau ariannol ac wedi galluogi'r clwb i gynllunio yn fwy cynaliadwy.

Effaith arbennig o nodedig fu datblygiad Tavian, padlwr ifanc sy'n defnyddio cadair olwyn, a enillodd gymhwyster Hyfforddwr Chwaraeon Padlo yn 17 oed. Bellach mae'n hyfforddi'n wythnosol mewn sesiynau i oedolion, pobl ifanc a grwpiau o alluoedd cymysg. I aelodau'r clwb, mae cael eu hyfforddi gan hyfforddwr anabl yn rhan naturiol o fywyd y clwb, gan helpu i wreiddio cynhwysiant a darparu cynrychiolaeth weladwy i bobl ifanc.

Mae dull y clwb yn ymarferol ac yn groesawgar: yn hytrach na gwahanu cyfranogwyr yn ôl labeli, ei nod yw cynnwys pawb sy'n dod drwy'r drws. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ifanc niwroamrywiol, y mae llawer ohonynt wedi datblygu hyder, cyfeillgarwch ac ymdeimlad o berthyn drwy chwaraeon padlo.

Effaith

- **Datblygwyd arweinwyr ifanc ac anabl i rolau hyfforddi gweladwy.**
- **Gwreiddiwyd darpariaeth gynhwysol yn weithgarwch prif ffrwd y clwb.**
- **Cadwyd hyfforddwyr gwirfoddol drwy lwybrau cymorth i ennill a chynnal cymwysterau.**
- **Crëwyd llwybrau datblygu mwy diogel i badlwyr ifanc.**
- **Lleihawyd rhwystrau ariannol i wirfoddolwyr a theuluoedd.**
- **Cryfhawyd gwydnwch hirdymor y clwb cymunedol.**
- **Mae cyllid addysg hyfforddwyr wedi'i dargedu wedi creu gwerth sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i gymwysterau yn unig.**
- **Mae wedi helpu Seren Dŵr i feithrin hyder, cynrychiolaeth, cyfranogiad mwy diogel a dyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer chwaraeon padlo cymunedol cynhwysol.**

Cymru

Cefnogi Gofalwyr Ifanc yng Nghaerffili

Ers 2023, mae Y Bartneriaeth Awyr Agored wedi cefnogi gofalwyr ifanc ledled Cymru i gael mynediad at weithgareddau awyr agored fel seibiant ystyrlon o'u cyfrifoldebau gofalu. Yn Sir Caerffili, mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc, Families First, yr Awdurdod Lleol a Caerphilly Adventures, gan greu rhaglen flaengar sy'n helpu pobl ifanc i feithrin hyder, sgiliau a llesiant drwy antur.

Yn dilyn ymgynghori â gofalwyr ifanc, rhieni, staff a gwasanaethau lleol, cynlluniwyd y rhaglen i gynnig llwybr datblygu clir: anturiaethau lleol ar garreg y drws megis teithiau cerdded yng Nghwmcarn, padlo ym Mhond Pen-y-fan a beicio mynydd trydan yn Rhisga; teithiau undydd gan gynnwys syrffio ym Mhorthcawl ac ogofa ym Mannau Brycheiniog; a phrofiadau preswyl yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys dringo Yr Wyddfa yn ystod amodau haf a gaeaf.

Un o gryfderau allweddol y rhaglen fu ei chysondeb. Mae'r gweithgareddau wedi'u darparu mewn partneriaeth â Caerphilly Adventures, gan alluogi hyfforddwyr i feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda'r gofalwyr ifanc. Mae hyn wedi helpu cyfranogwyr i symud ymlaen o weithgareddau lleol cyfarwydd i anturiaethau mwy heriol, gan ddatblygu gwytnwch, annibyniaeth a hyder ar hyd y daith.

Mae Cameron, gofalwr ifanc o Aberbargoed, wedi cymryd rhan yn y rhan fwyaf o'r sesiynau dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gartref, mae'n helpu i ofalu am ei frodyr a'i chwiorydd, ac mae'r rhaglen wedi rhoi amser iddo i ffwrdd, profiadau newydd a chyfle i ailwefru. Disgrifiodd fywyd cartref weithiau fel un "gwyllt", a dywedodd fod y teithiau yn rhoi seibiant mawr ei angen iddo, gan ei helpu i deimlo'n fwy tawel pan oedd yn dychwelyd adref.

Dros amser, mae Cameron wedi datblygu o fod yn gyfranogwr caredig a chefnogol i fod yn fodel rôl cadarnhaol i ofalwyr iau. Yn ystod taith breswyl i Ogledd Cymru, dewisodd gefnogi cyfranogwyr iau i gyrraedd copa Yr Wyddfa mewn tywydd gwael, er ei fod eisoes wedi cyrraedd y copa ar daith flaenorol. Roedd hyn yn dangos ei aeddfedrwydd, ei empathi a'i sgiliau arweinyddiaeth oedd yn datblygu. Ers hynny, mae Cameron wedi symud ymlaen i addysg ôl-16 ac wedi cofrestru ar gwrs Gwasanaethau Cyhoeddus, lle gall barhau i ddatblygu ei sgiliau arweinyddiaeth a mentora. Mae'n gobeithio parhau i fod yn rhan o deithiau antur seibiant y gofalwyr ifanc fel gwirfoddolwr pan fydd yn troi'n 18 oed.

Myfyrdodau Cameron

Mewn cyfweliad ar-lein, dywedodd Cameron mai un o'i hoff brofiadau oedd y daith breswyl i Ogledd Cymru ym mis Chwefror. Soniodd am syrthio mewn cariad â'r mynyddoedd, y tawelwch a'r llonyddwch, a'r cyfle i wneud ffrindiau newydd. Roedd hefyd yn gwerthfawrogi'r amser ymlacio, gan gynnwys yr ystafell gemau, siocled poeth ar ôl diwrnod hir ar y mynydd, a'r bwyd yn y ganolfan. Mae'r teithiau wedi ysbrydoli Cameron i archwilio mwy o leoedd yn y dyfodol, gan gynnwys Castell Caernarfon, Scafell Pike, Ucheldiroedd yr Alban a Ben Nevis. Mynegodd hefyd ddiddordeb mewn taith breswyl hirach, gan adeiladu ar y fformat tridiau a dwy noson a ddefnyddiwyd yn flaenorol.

Effaith

Mae rhaglen Sir Caerffili yn dangos sut y gall profiadau awyr agored blaengar wella llesiant gofalwyr ifanc, darparu seibiant hanfodol, a'u helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol, hyder a dyheadau ar gyfer y dyfodol.Mae taith Cameron yn amlygu gwerth ehangach antur. Mae wedi cefnogi ei ddatblygiad personol, cryfhau ei ymdeimlad o'r hyn sy'n bosibl, a'i helpu i weld sut y gall gefnogi eraill mewn ffordd gadarnhaol.

Y Bartneriaeth Awyr Agored
Effaith gymdeithasol fesul prosiect

Cydlyniant Cymunedol

Gwella cydlyniant cymunedol drwy chwalu rhwystrau i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol drwy sesiynau wedi'u targedu, rhaglenni datblygu a digwyddiadau cynhwysol; cefnogi grwpiau a chlybiau cymunedol i sefydlu mannau a lleoliadau cynaliadwy a chynhwysol; a meithrin cysylltiadau ar draws cymunedau.

Gwerth Cymdeithasol - £156,187

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym yn ymgorffori ein gweledigaeth o fynediad cyfartal i bawb drwy gyd-ddylunio prosiectau gyda'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf. Yn ddiweddar rydym wedi datblygu strategaeth newydd, gan nodi blaenoriaethau rhanbarthol a nodwyd gan y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Gwerth Cymdeithasol - £2,584,902

Llwybrau at Waith

Mae'r Rhaglen Llwybrau at Waith wedi'i hanelu at bobl sy'n cael mynediad at weithgareddau awyr agored am y tro cyntaf neu sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau personol a/neu broffesiynol, gan arwain at ffordd o fyw mwy egnïol, gwirfoddoli a gwaith.

Gwerth Cymdeithasol - £32,358

Iechyd a Lles

Mae'r rhaglen Iechyd a Lles yn dwyn ynghyd gydweithrediad o bartneriaid o'r sectorau awyr agored ac iechyd i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, gwella iechyd meddwl a chorfforol a darparu cysylltiadau â chlybiau a grwpiau cymunedol lleol sy'n galluogi pobl i ddilyn ffyrdd annibynnol o fyw yn actif yn yr hirdymor. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar y maes ymchwil cynyddol sy'n rhagnodi gweithgareddau i bobl ar gyfer eu hiechyd yn hytrach na meddyginiaeth gaiff ei alw'n presgripsiynu cymdeithasol.

Gwerth Cymdeithasol - £536,432

Gwirfoddoli

Mae ein rhaglenni gwirfoddoli ar agor i unrhyw un sy'n dymuno gwirfoddoli yn y sector awyr agored a gallwn gynghori a chefnogi gwirfoddolwyr sy'n chwilio am gyfleoedd i helpu yn eu cymuned leol. Mae ein prif raglenni gwirfoddoli yn cynnwys Llysgenhadon Gwirfoddol, Gwirfoddoli Clybiau ac Addysg Hyfforddwyr ac mae Caru Eryri yn canolbwyntio ar uwchsgilio a grymuso gwirfoddolwyr newydd a phresennol mewn clybiau a chymunedau lleol. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau eraill i gydlynu profiadau gwirfoddolwyr, a rhannu gwybodaeth am wahanol gyfleoedd gwirfoddoli.

Gwerth Cymdeithasol - £115,364

Datblygu Clwb

Mae ein Swyddogion Datblygu Lleol yn cynnig cefnogaeth i glybiau presennol yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddatblygu clybiau newydd. Bydd y gefnogaeth hon yn cynnwys llywodraethu da, recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, marchnata, cael cyllid yn ogystal â datblygu diddordeb yn y gweithgareddau ledled y Deyrnas Unedig.

Gwerth Cymeithasol - £2,468,481

Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau

£1 → £8.42

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol i wneud y mwyaf o’r effaith

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr effaith gadarnhaol sydd gan Y Bartneriaeth Awyr Agored ar fywydau pobl ledled y Deyrnas Unedig. Rydym wedi buddsoddi llawer o adnoddau i ddangos ein gwerth cymdeithasol ond yn bwysicaf oll i ddatblygu system rheoli effaith sy'n ein galluogi i edrych ar sut y gallwn wneud y mwyaf o'r effaith o fewn cymunedau.

Mae argymhellion a blaenoriaethau ar gyfer rheoli gwerth cymdeithasol yn 2026/2027 yn cynnwys:

- Adolygu a mireinio mesurau deilliannau yn rheolaidd ar draws yr holl raglenni craidd
- Ehangu maint y sampl o arolygon gwerth cymdeithasol i gryfhau ein sylfaen dystiolaeth
- Ymchwilio ymhellach i'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchir gan ein rhaglen Dysgu Antur
- Mabwysiadu platfform data newydd i wella gwneud penderfyniadau strategol ynghylch gwerth cymdeithasol
- Cynnal a thyfu darpariaeth gwasanaethau ledled y Deyrnas Unedig
- Cryfhau partneriaethau â darparwyr a chlybiau lleol i wella lles cymunedol, cynyddu mynediad i'r awyr agored, a lleihau rhwystrau i gyfranogiad
- Creu adroddiad SROI lleol i ddeall effaith y prosiect yn well ar lefel leol

Mae’r gwerth cymdeithasol wedi’i adolygu yn annibynnol gan Social Value Cymru. Wrth baratoi’r adroddiad hwn mae amcangyfrifon priodol wedi’u gwneud yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan randdeiliaid a defnyddio dirprwyon ariannol. I weld y map gwerth llawn, cysylltwch gyda ni.
Ffynonellau data:
Global Value Exchange
GOV.UK

Am wybodaeth bellach am ein gwerthusiadau gwerth cymdeithasol eraill, ewch i’n gwefan.